Neuadd y Sir
Caerdydd,
CF10 4UW
Ffôn: (029) 2087 2088
www.caerdydd.gov.uk
County Hall
Cardiff,
CF10 4UW
Tel: (029) 2087 2087
www.cardiff.gov.uk

Medi 2022

Annwyl Randdeiliad

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynigion i ymestyn ac adlinio darpariaeth ysgolion arbennig a Chanolfannau Adnoddau Arbenigol (CAAau) ar gyfer disgyblion ledled Caerdydd sydd ag Anghenion Dysgu Cymhleth a Chyflyrau'r Sbectrwm Awtistiaeth a gyhoeddir gan y Cyngor ac Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf fel y nodir isod:

- Cynyddu nifer dynodedig Ysgol Arbennig Meadowbank o 40 i 98 o fis Medi 2022.
- Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Ysgol Gynradd Marlborough i blant ag anghenion dysgu difrifol a chymhleth o 20 i 30 lle o fis Medi 2022.
- Cynyddu'r nifer dynodedig yn y Ganolfan Adnoddau Arbenigol yn Ysgol Gynradd Springwood ar gyfer dysgwyr â Chyflwr Sbectrwm Awtistig o 20 i 28 o fis Medi 2022
- Cynyddu'r nifer dynodedig yng Nghanolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf o 42 i 66 o lefydd o fis Medi 2022

Derbyniwyd un gwrthwynebiad ffurfiol i'r cynigion, yn ymwneud â'r cynnig ar gyfer Canolfan Adnoddau Arbenigol Canolfan Marion yn Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru Esgob Llandaf.

Yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2022 ystyriodd Cabinet y Cyngor y cynigion, y gwrthwynebiad statudol a gyflwynwyd ac ymateb Corff Llywodraethol Ysgol Uwchradd Esgob Llandaf i'r rheiny.

Crynhoir y pryderon a godwyd yn yr adroddiad gwrthwynebu ynghyd ag ymateb Corff Llywodraethol Ysgol Uwchradd yr Eglwys yng Nghymru, Esgob Llandaf.

Mae'r adroddiad gwrthwynebu ar gael i'w weld ar wefan yr ysgol a'r Cyngor.

Agenda Cabinet ar Dydd Mercher, 28ain Medi, 2022, 3.30 pm : Cyngor Caerdydd (moderngov.co.uk)

Ystyriwyd bod ymateb y Corff Llywodraethol, a mesurau lliniaru traffig a oedd yn cael eu hystyried gan y Cyngor, yn ateb y materion a godwyd.

**Cymeradwyodd y Cabinet y cynigion fel a nodir uchod heb eu newid.**

Roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynigion yn:

- Darparu lleoedd ysgol priodol o ansawdd uchel i bobl ifanc ag anghenion dysgu cymhleth ac awtistiaeth.

GWEITHIO DROS GAERDYDD, GWEITHIO DROSOCH CHI
Mae'r Cyngor yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog. Byddwn yn cyfathrebu â chi yn ôl eich dewis, dim ond i chi roi gwybod i ni pa un sydd well gennych. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

WORKING FOR CARDIFF, WORKING FOR YOU
The Council welcomes correspondence in Welsh, English or bilingually. We will ensure that we communicate with you in the language of your choice, as long as you let us know which you prefer. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

CRYFACH TECACH GWYRDDACH | STRONGER FAIRER GREENER

- Cynyddu y nifer lleoedd canolfan adnoddau arbenigol ar gyfer dysgwyr cynradd, uwchradd ac ôl-16 sydd ag anghenion dysgu cymhleth ac awtistiaeth. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod digon o leoedd i ateb y galw cynyddol sy'n deillio o boblogaeth gynyddol o ddisgyblion a nifer cynyddol o achosion ac o nodi Anghenion Dysgu Cymhleth ac Awtistiaeth yng Nghaerdydd.
- Sicrhau y byddai rhai disgyblion sy'n byw yng Nghaerdydd yn teithio pellteroedd llai i gael mynediad at ddarpariaeth arbenigol nag y byddent yn ei wneud i gyrraedd darpariaeth amgen y tu allan i Gaerdydd
- Lleihau'r angen i ariannu lleoedd mewn ysgolion arbennig mewn ardaloedd Cyngor arall neu mewn ysgolion annibynnol gan y bydd lleoedd addas ychwanegol o fewn Ysgolion Caerdydd.
- Rhoi'r cyfle i gyflogi staff arbenigol ychwanegol a gweithio'n agosach gyda gwasanaethau arbenigol yng Nghaerdydd a fyddai'n gwella capasiti addysgu cynhwysol ysgolion prif ffrwd ac y byddai o fudd i'r holl ddisgyblion yn yr ysgolion.

Bydd y newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2022.

**Atgyfeirio Penderfyniad yr Awdurdod Lleol at Weinidogion Cymru**

Dan adran 54 Deddf 2013 os yw'r cynigion wedi'u cymeradwyo gan awdurdod lleol, caiff y cyrff canlynol, cyn diwedd y 28 diwrnod gan ddechrau ar ddiwrnod y penderfyniad, atgyfeirio'r cynnig at Weinidogion Cymru i'w ystyried;

*i. Awdurdod lleol arall y mae'r cynigion yn effeithio arno;*
*ii. Corff crefyddol priodol unrhyw ysgol yr effeithir arno;*
*iii. Corff Llywodraethu ysgol sefydledig neu wirfoddol sy'n destun y cynigion;*
*iv. Ymddiriedolaeth sy'n dal eiddo ar ran ysgol wirfoddol neu sefydledig sy'n destun y cynigion; a*
*v. sefydliad addysg bellach y mae'r cynigion yn effeithio arno*

Mae'r penderfyniad yn amodol ar y gweithdrefnau galw i mewn fel y nodir yng nghyfansoddiad y Cyngor sy'n galluogi adolygu penderfyniadau'r Cabinet. Os oes galw i mewn ar gyfer y penderfyniad, rhoddir gwybod i'r holl randdeiliaid.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r Tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion ar 029 2087 2917 neu e-bostiwch:
ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk

Yn gywir

Richard Portas
**Gyfarwyddwr y Rhaglen**
**Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion**